

Parc Pawb

drafft - heb ei orffen 161222

pwrpas y drafft hwn yw i roi cyfle i'r Pwyllgor / Cyngor weld beth yw prif gasgliadau'r prosiect; disgwylir y caiff y testun ei olygu yn sgil trafodaeth bellach, ymgynghori pellach a pharatoi ceisiadau am nawdd ariannol

hefyd bydd mwy o ddelweddau, ayb. yn y fersiwn terfynol ynghyd a chlawr, a'r atodiadau

1. cefndir

- 1.1. Yn Hydref 2013 cofnodwyd cyfres o drafodaethau rhagarweiniol yn nodi sgôp a chyfeiriad dyheadau i gael camau datblygiad cymunedol pendant gan Arwel Jones ag Ati (AJA) ar ran y corff datblygu cymunedol Breuddwydion Bro Madog. Bwriad y gwaith oedd i ..

"... hwyluso cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus yn ardal Bro Madog i adlewyrchu ar hanes y fro, i ystyried ei chryfderau a gwendidau cyfoes ac i edrych ymlaen i'r flwyddyn 2020 gyda chyfres o brosiectau ymarferol i ddathlu a gwella'r ddarpariaeth leol. "

Cafwyd ymateb adeiladol a chadarnhaol ac enghraifft o'r trafod yma oedd **Prosiect y Parc** ar gyfer safle parc yng nghanol tref Porthmadog (nid Cae Bodawen) a gofnodwyd yn yr adroddiad:

tabl: Un o syniadau'r adroddiad blaenorol

Disgrifiad	Angen canolbwynt oherwydd lle'n wag yn aml, ail gynllunio, blodau, gweithgareddau, bandstand, cyngherddau, pafiliwn, fountain, dim ffens, trwsio cofeb Madocks, cerfluniau, gweithgareddau i'r plant, cloc, angen cael y plant yno - hyn yn bwysig, gall plant blannu blodau yno.
Corff/Partneriaid	pwyllgor y cloc ac is-bwyllgor y dref
Cyllid	Mantell Gwynedd, Loteri
Adnodd arall	Gwirfoddolwyr, clwb garddio i blant
Swyddi	Swyddog Datblygu, Trefnydd gweithgareddau
Amserlen	10 mlynedd
Enwau pobl â diddordeb	Jill Lomas; Eddie Blackburn; Carys Parry; Selwyn Griffiths; Martin Pritchard; Helen Ellis

Mae hwn yn dangos y math o syniadau oedd yn cael eu gwyntyllu, a manylder y drafodaeth er mwyn edrych ar beth oedd yn ymarferol i'w ddatblygu ymhellach.

- 1.2. Edrychwyd hefyd ar themau, oedd yn rhychwantu ar draws y prosiectau posib, megis "Pobl Ifanc", "Atyniadau" a "Syniadau Eraill"

tabl: Un arall o syniadau'r adroddiad blaenorol

Pobl Ifanc	Atyniadau	Syniadau Eraill
Defnyddio capeli gweigion fel yr un yn Bank Place fel canolfan ieuentid neu bosib adnodd dringo dan do neu stiwdio ayyb. Mae sawl adeilad tebyg yn yr ardal ond sut y gellid eu cael a gan bwy?	Sw	Mwy o goed
Datblygu'r sinema fel adnodd amlbwrpas i bobl ifanc (neu unrhyw oedran) gyda stiwdio cerdd a drama	Bowlio 10	Gwella'r Ganolfan Hamdden
Gwella'r Parc [1] – swings gwell (rhaf coch), sleid sydyn, mwy o bethau i wneud yn y Parc	Wal ddringo	Parcio am ddim
Beicio – llwybr beicio rownd y dre, menthyg beiciau, skate park i feiciau	Castell neidio	Gwella'r Coliseum
Llwybrau - llwybr saff i fynd a phramiau, llwybr cerdded yn Nhremadog	Rhaffau uchel	Gwella'r Parc
Yr Harbwr - lle i chwarae yn yr Harbwr	Acwariwm	Cae chwarae i bawb
Mwy o lefydd diogel i groesi ym Mhorthmadog (Pelican Crossing)	Hwylfan	
Lle dringo, lle chwarae, a byrddau picnic yn goedwig Tremadog	Sglefrio iâ	
Creu lan y môr ym Mhorthmadog	Sinema	
Cael sinema ym Mhorthmadog		
Mwy o ddisgos i blant		
Clwb cwis i blant		

- 1.3. Mae mwy o wybodaeth am yr adroddiad hwn ar y safle we sydd yn fyw o hyd (Hydref 2016) ar y cyfeiriad hwn: <http://breuddwydionbromadog.weebly.com>
- 1.4. Yn sgil yr adroddiad uchod, ac yn dilyn trafodaeth bellach, penderfynnodd Breuddwydion Bro Madog symud ymlaen i edrych yn fwy manwl ar brosiect oedd yn cyrraedd nifer o amcanion a adnabyddwyd yn y gwaith cyhwynol. Penderfynwyd ar y trywydd canlynol:
- 1.4.1. edrych ar ymarferoldeb datblygu'r defnydd o Gae Chwarae Bodawen (Parc Pawb)
 - 1.4.2. ei ddatblygu'n adnodd hamdden a chwarae awyr agored cymunedol
 - 1.4.3. i wella, yn arbennig, y ddarpariaeth ar gyfer plant hyn a phobl ifanc
- 1.5. Er mwyn cyflawni hyn, felly, roedd angen ystyried y pynciau canlynol:
- 1.5.1. safonau a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar chwarae plant (pecyn Cymorth Cymuendol ar gyfer 'Datblygu a Rheoli Gofodau Chwarae' 2016)
 - 1.5.2. pwy ddylai/fyddai'n elwa, a sut
 - 1.5.3. gofynion, dichonoldeb a graddfa'r datblygiad
 - 1.5.4. dyluniad, ystyriaethau rheolaeth a chyfyngiadau ar y bwriad

- 1.5.5. **costau** adeiladu a rhedeg
- 1.6. Rhan o fwriad cynllun cymunedol o'r fath, hefyd, yw cynyddu hyder y gymuned leol, felly roedd agweddau eraill oedd angen eu hystyried ac a fyddai'n bwysig. Themau a meysydd gweithredol megis:
- 1.6.1. **parhad ac arwyddocad diwylliannol**: y syniad o barhad, ond hefyd symboliaeth gwaith, ac arwyddocad man cychwyn a chyrchfan
- 1.6.2. **nodweddion cyd-destun y datblygiad**: safle a lleoliad
- 1.6.3. **adnodd economaidd lleol**: [cynyddu trosiant economaidd yn y cylch](#)
- 1.6.4. **hanes economaidd lleol**: yn oystal a hanes morwrol a chwarelyddol

2. ymchwil

- 2.1. Cyn medru symud ymlaen roedd rhaid cael strategaeth i gasglu gwybodaeth ynglyn a'r prosiect, ac adwaith tuag at y bwriadau a gynnigwyd. Dilynwyd y patrymau canlynol ar gyfer yr ymchwil angenrheidiol:
- 2.2. **datblygu themau creadigol**: ar sail yr ystyriaethau uchod, ac ymchwil fwy penodol, datblygwyd fframwaith weledol a chysyniadol er mwyn ysgogi a hyrwyddo syniadaeth wreiddiol ac ystrylon (gyda'r artist Pandora Vaughan); mae'r themau hyn yn cynnwys cyfeiriadaeth at y môr a llongau, ond hefyd at wely'r môr a thirwedd y Traeth Mawr cyn ei fodd; y trydydd elfen weledol yw'r defnydd o goed, rhai yn gymharol llyfn a syth ac eraill yn fwy organig a throellog, y cyswllt rhwng y Blanhigfa a'r bwriad o'u defnyddio i greu mastiau llongau (gw. [Atodiad 9.7](#))
- 2.3. **digwyddiadau cyhoeddus** : gan mai cynllyn i'r gymuned yw hon, y dull mwyaf amlwg o gael ymateb ac i lunio bwriadau fwy manwl, yw gofyn iddyn nhw yn uniongyrchol drwy sgwrsio, ac iddynt weld mai nid rhyw bywllgor llychlyd sydd tu ôl i'r cyfan ond eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o'r cychwyn cyntaf. Cynhaliwyd tri digwyddiad penodol (isod) ond hefyd, galwodd nifer o uniogolion heibio yn ystod y cyfarfodydd pwyllgor cyffredin - un fantais o'u cynnal mewn lle cyhoeddus agored a phrusyr (Y Ganolfan Hamdden).
- 2.3.1. **ymgyngoriad ar y safle**: cynhaliwyd dau ddigwyddiad ar y safle, yn y gobaith o ddenu bobl fyddai'n debygol o ddefnyddio'r lle maes o law: cynhaliwyd y ddau ar adegau pan fyddai dim ysgol a phan y byddai'n olau (Gwyl y Banc Mai 2il, a Gorffennaf 7fed) ond yn anffodus roedd y glaw a'r gwynt yn drech na'r gallu i gynnal sgwrs gall, y rhan fwyaf o'r amser, ar waethaf rhes o gysgodfannau eitha anrhydeddus; o'r ychydig o ymateb a gafwyd, roedd y safon yn dda - barn benodol am beth ddylai fod ar y cae - a manylion - ond dim digon, yn anffodus, i fedru ffurfio barn ac awgrymiadau fwy cyflawn
- 2.3.2. **ymgyngori yn y Ganolfan Hamdden**: yn dilyn y ddau brofiad llaith a thymhestlog, cynhaliwyd cyfarfod agored (Hydref 10fed) i bobl alw heibio i weld sut oedd pethau'n mynd; wedi pasio, erbyn hyn, y cyfnod o ofyn cyffredinol, gwahoddwyd sylwadau ar beth ddylai dderbyn blaenoriaeth (gw. 'holiadur' isod), ac fel ymhob cyfarfod cafwyd ymateb cadarnhaol, a mynegiant i farn sefydlog, ynghyd a diddordeb gan gyrff ac unigolion o'r newydd, a mwy ohono y tro hwn.

Cyflwynwyd holiaduron ar gyfer y digwyddiad hwn, ar bapur ac ar lein (gw. isod)

2.3.3. **sesiynnau ymgynghori pellach:** yn dilyn y digwyddiadau uchod, a'r angen wedyn i dderbyn mwy o ymateb gan bobl ifanc (ymateb i'r holiadur wedi bod yn dda gan rieni ac oedolion erill, ond ddim gystal gan bobl ifanc) penderfynwyd cynnal cyfres o sesiynnau mwy anffurfiol fel a ganlyn:

- ysgol uwchradd (Ysgol Eifionydd)
- clwb ieuencid (Porthmadog)
- ysgolion cynradd (Ysgolion Eifion Wyn, Borth y Gest, ????)

Rhoddwyd cyflwyniad byr o'r bwriadau gan ddefnyddio delweddau wedi eu cymryd o'r model mawr a'r model digidol, ac yna enwi'r holiadur ar y cyd ar bapur. Rhoddwyd y canlyniadau arlein wedyn, er mwyn cael dadansoddiad. Cafwyd ymateb brwdfrydig iawn.

2.4. **holiaduron:** Fel y nodwyd uchod, paratowyd Holiadur yn ceisio cadarnhau fod cefnogaeth gyffredinol i'r bwriad, ac yn ceisio holi beth yn benodol y dylid ei gynnwys yn y ddarpariaeth; ceiswyd heyfd gael syniad o bwy oedd y sawl oedd yn cael eu holi, a pha maor gynrychioliadol oeddynt o'r cylch. Mae'r dadansoddiad yn yr Atodiad.

2.5. **ymholiadau uniongyrchol:** gan mai o dan waith y Cyngor Tref y daw'r prosiect, mae yna rwydwaith parod i gyrraedd allan at wahanol unigolion allweddol - arweinyddion grwpiau (clwb ieuencid, clwb seiclo, Sgowtiaid, cynghorwyr, ayb.) ac fe fanteiswyd yn llawn ar y rhwydweithiau hyn hefyd, ac wrth gwrs ar dudalennau Facebook a Twitter

2.6. **ymchwil dechnegol:** holwyd am wybodaeth dechnegol am gyflwr y tir, gwasanaethau, cyfyngiadau cyfreithiol a hawliau tramwy i'r Cyngor Tref, y perchnogion y tir, ac i ffynonellau (megis Landmap, drwy gyfrwng y peiriannwyr, Datrys) am wybodaeth gyhoeddus.

3. disgrifiad

3.1. Rhestrir yma prif nodweddion y safle **lleoliad (gw. darlun):** mae'r safle ar dir gwastad rhwng Porthmadog a Thremadog ger y gylchfan ar lwybr y ffordd osgoi newydd. Bu'r cae yn berchen i'r Cyngor Tref ers 1974 a chyn hynny Gyngor Trefol Porthmadog (UDC). Mae'r safle o fewn pellter cerdded hawdd o ganol Porthmadog (980m o Bank Place) a Thremadog (820m o'r sgwâr). Mae'r ffordd fawr (A487 Caernarfon i Ddolgellau) yn pasio ar yr ochr ogleddol, lle mae cylchfan ar y gyffordd efo'r ffordd sydd yn arwain i Borthmadog (A4971) Mae croesfan dan reolaeth goleuadau traffig ger y gylchfan. Mae ffin Parc Cenedlaethol Eryri gerllaw (1km i'r gogledd) ac mae ffin Ardal Gwarchod y Tirwedd tua 0.5km tua'r dwyrain (ardal y Traeth Mawr). Mae'r safle ei hun wedi ei ddynodi yn Llecyn Agored i'w Warchod (ond nid yn Llecyn Chwarae) yng Nghynllun Datblygu Unedol Cyngor Gwynedd 2004 - 2016.

3.2. **gerllaw:** Ar ochr arall y ffordd sydd yn arwain i mewn i Borthmadog mae Ysgol Eifionydd, ysgol uwchradd y cylch, a'i gaeau chwarae, a rhyw 500m ymhellach mae meysydd Clwb Chwaraeon porthmadog, a chae clwb pel droed Porthmadog. Ar ochr arall y ffordd, tua'r dwyrain mae mynedfa i gartref gofal henoed, Bodawen, ac mae'r trigolion yn aml yn dod

mor belled a'r ffordd fawr am dro i weld y byd yn pasio.

- 3.3. **safle:** Mae'r tir yn wastad, ac yng nghysgod Foel y Gest i'r de, a Chraig y Dref a Chraig y Castell i'r gogledd, tu ôl i Dremadog. Mae'r ffurf ddaearyddol yn creu dyffryn sydd yn rhedeg o'r de orllewin i'r ogledd ddwyrain ac felly yn agore i'r prif wyntoedd. Hefyd ar yr ochr ogeddol, ar draws y ffordd mae'r Blanghigfa (Nursery) sef allt o goed a blannwyd i ddarparu coed ar gyfer adeiladu llongau yn y cylch. Bellach mae'n dir mwynder cyhoeddus ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd. Gan fod y coed ar graig, mewn manau, maent yn nodwedd amlwg iawn o'r safle, er nad ydynt yn rhan ohonno.
- 3.4. **darpariaeth bresennol:** ar hyn o bryd, cae chwarae ar gyfer plant ifanc, yn unig, sydd ar y cae, i bob pwrpas, gydag offer addas ar gyfer plant hyd at tua 8 oed. Mae hwn yn offer mewn cyflwr da, ac wedi ei gynnal a'i gadw'n ddigonol, ac er ei fod yn eitha confensiynol o ran dyluniad a diwyg, mae'n gwneud ei waith yn ddigon boddhaol. Dyw'r llwybrau a'r arwynebedd rhyngthynt ddim yn arbennig o hwylus a gellid gwella arnynt. Er fod dwy gôl ar y cae, a hwnnw'n ardal heb rediad iddo, ac ymhell o'r terfynnau, mae cyflwr y tir yno yn sâl - dŵr yn hel a wyneb anwastad - dyw hi ddim yn ymarferol chwarae peldroed yno. Mae hyn yn deillio, yn rhannol o'r anallu i dorri'r glaswellt, oherwydd y tir garw, ac nad oes rhwydi na wal y tu ôl i'r goliau. Mae'n ardal agored ac eitha digysur mewn gwynt a glaw.
- 3.5. **diffygion amlwg:** gwelir felly fod angen elfennau newydd fyddai'n cwblhau'r ddarpariaeth fel cae chwarae cyffredin, yn darparu ar gyfer plant a bobl ifanc, fel a ganlyn:
- 3.5.1. offer chwarae presennol (plant dan 8) yn gyfyngedig eu hapel a'u cyd-destun yn ddiddychymyg
 - 3.5.2. offer chwarae ar gyfer plant hyn 8 - 12 oed
 - 3.5.3. offer ar gyfer bobl ifanc 12 - 16 oed
 - 3.5.4. angen mwy o feinciau ar gyfer rhieni
 - 3.5.5. cysgodfannau ar gyfer gwynt a glaw
 - 3.5.6. angen gwell llwybrau ac arwynebeddau cysylltiol
 - 3.5.7. dim adnoddau i rieni
 - 3.5.8. dim apel i bobl hyn na'r biblogaeth ehangach

4. bwriad - gofynion, cyfyngiadau, manteision

- 4.1. Byddai darparu adnoddau ychwanegol i gywiro hyn a restrir uchod, yn gwella'r ddarpariaeth, ond teimlwyd hefyd fod cyfle i wneud mwy na hynny, drwy wneud y Parc yn fan cyfarfod amwynedrol i'r gymdeithas gyfan, ac i ymwelwyr. Ceisiwyd edrych ar greu cynllun oedd yn fwy na chyfanswm y rhannau, fel petai. Dyma, felly, ystyried beth ddylai gofynion manwl y cynllun fod, ac yn sgil hynny, rhai cwestiynnau pellach ynglyn a chymeriad y cynllun
- 4.2. **pwyl fyddai'n yn elwa?:** Mae'n amlwg felly y dylid cyflawni'r ddarpariaeth ar gyfer plant hŷn, ond wrth ofyn y cwesitwn ynglyn a lle ddylair terfyn ddigwydd teimwyd mai'r a phobl ifanc. Yn fwy cyffredinol, ystyrir fod angen i hwn fod yn fwy na dim ond gosod offer chwarae ychwanegol, gan ogwyddo tuag at ddarpariaeth sydd yn ymestyn sgiliau corfforol ond hefyd sgiliau cymdeithasu. Mae'r pwyslais yn gymaint ar y 'lle' ac ydyw ar yr hyn sydd yn cael ei gynnig fel adnoddau. Gellir, felly, weld y canlynol fel grwpiau fyddai'n elwa:

- 4.3. **graddfa:** Mae cymeriad y cynllun yn uchelgeisiol, gan ei fod yn anelu i ddiwallu ystod eang o anghenion. Mae'n debyg, felly ei fod yn mynd i fod yn gynllun sylweddol, o safbwynt graddfa'r gwaith a'r gwariant. Eto mae angen iddo fod yn realistig o safbwynt cyfyngiadau ffynonellau cyllid, ac hefyd effaith hynny ar ddisgwyliadau'r defnyddwyr. Mewn geiriau eraill - rhyf ach a bydd yn methu a chyrraedd yr amcan, ac yn siomi - rhyfawr a bydd yn anfforddadwy neu yn faen melin riannol am genedlaethau i ddod. Sut felly mae penderfynu ar ddichonoldeb y cynllun - a ydyw, yn foel, yn gynllun £70k neu £700k?
- 4.3.1. **maint:** mae digon o le i ymestyn y ddarpariaeth ac mae'r tir wedi ei ddynodi (gan Adran Gynllunio Gwynedd) yn dir agored cyhpeddus, gyda defnydd cae chwarae arno yn barod. Nid yw hyn yn mynd i'r gyfyngu, dim ond fod angen sicrhau fod y defnydd yn effeithiol (h.y. ddim yn rhyfawr)
- 4.3.2. **lleoliad:** gan fod y safle o fewn pellter cerdded hawdd o ddwy neu dair ardal o boblgaeth fwy dwys (Pensyflog, Maes Gerddi a Isgraig) mae'n deg disgwyl cynydd sylweddol yn y nifer o ddefnyddwyr beunyddiol, yn ogystal ag ymwelwyr o fannau pellach yn y cylch a thu hwnt)
- 4.3.3. **costau:** fel ffordd o ddod at y cynllun penderfynwyd llunio rhestr o offer, nodweddion a gwaith safle, a fyddai'n duiwellu'r anghenion a ddaeth i'r golwg. Wrth lunio'r rhestr ystyriwyd y buddiannau ymarferol a holistig yn hytrach na'r costau - eto gan fod yn realistig. Mae'r costau yn cael eu nodi yn 8.00 isod lle'r ystyrir a yw'r amcangyfrif yn rhesymol, a sut mae'n cyfateb i'r ffynonellau ariannol sydd ar gael.
- 4.4. **elfennau:** er mwyn medru paratoi amcangyfrifon costau ac ateb yr ystyriaethau uchod _ graddfa, cymeriad - lluniwyd rhestr o ddarpariaethau. Mae'r rhestr lwn i'w weld yn Atodiad 9.5, ond maent yn rhannu yn fras, fel a ganlyn:
- 4.5. **agwedd fasnachol:** tra nad yw'n fwriad i greu menter fasnachol, mae angen iddo gynnal ei hun o safbwynt costau cynnal a chadw, a datblygiadau pellach. Mae hyn yn cyfuno a'r angen iddo fod yn leoliad ar gyfer gweithgareddau yn gymaint ag ar gyfer yr offer sy'n cael ei ddarparu yno. Mae rhan o gystaw cyson y safle yn mynd i barhau i ddod o goffrau'r Cyngor ond mydd elfen fwy oherwydd y cynydd yn maint y safle. Bydd hefyd angen i logi a chyllido gweithgareddau o wahanol fathau. Mae'n rhesymol disgwyl i'r agwedd hynny dalu amdano'i hun, ond efallai y dylai hefyd fod yn ffynhonnell elw, yn arbennig yn ystod yr haf, neu sicr i gyfrannau at gostau gweithgareddau ar gyfnodau lle byddai llai o gefnogaeth. Byddai'r gweithgareddau hyn (e.e. arddangosfa ddringo, sioe, gwyliau cerddorol) n cael euhariannu drwy nawdd - grant, neu fasnachol - neu drwy incwm gwerthiant tocynnau, neu gyfuniad. Mae nagen felly medru darparu ar gyfer y gweithgareddau hyn drwy ddefnydd or' gofod neu drwy fedru lleoli pabell, ayb. ar y safle. mae digon o le i hynny, ond dyid sicrhau fod llif yr y defnyddwyr o gwmpas y safle yn caniatáu i hyn ddigwydd yn effeithiol, yn ogytal a mynediad at wasanaethau a cherbydau.
- 4.6. **cynllunio:** mae'r defnydd or safle wedi ei sefydlu ers blynnyddoedd lawer, a gan eifod ym mherchnogaeth y Cyngor Tref, mae'r hawl ganddynt i'w ddatblygu o fewn y defnydd

	grwp	darpariaeth newydd	yn elwa sut?
1	plant hyd at 8 oed	gwell arywnebedd; mwy o feinciau; cysgodfan	gwell gydgymysgu cymdetihasol (rhieni, neiniau a theidiau)
2	plant 8 - 12 oed	mwy o offer; llwybr beicio	mwy pwrpasol i'r oed (tueddu mwy at ddyfeisgarwch); ddim yn cystadlu â'r plant iau am yr offer
3	bobl ifanc 12 - 16	offer newydd; iard peldroed; cysgodfannau; bowlan beics;	pwyslais ar iechyd corfforol a gwell cyfle i gymdeithasu
4	bobl ifanc hŷn/ oedolion ifanc	offer cadw'n heini	iechyd corfforol a chymdeithasol
5	rhieni + teulu estynedig	meinciau; cysgodfannau; toiledau; darpariaeth newid clwt	arhosiad hirach, ac felly gwell 'gwerth' iddo; ymweliadau amlach oherwydd mwy o apel; profiad teuluol gwell;
6	henoed	meinciau; toiledau	gwell profiad cymdeithasol; mwy o ymarfer corfforol
7	anabl	darpariaeth newid anabl; toiled anabl; offer addas ar gyfer defnyddwyr anabl	gwell profiad cymdeithasol; cynhwysol
8	ymwelwyr (hyd at 30km)		cyrchfan teuluol apelgar (e.e. ar benwythnos)
9	ymwelwyr (ar eu gwyliau)		cyrchfan hwylus ac am ddim, ei gyfuno ac ymweliad ag atyniadau eraill, neu ail ymlweiad
10	yr economi leol		cynyddu ymwelwyr â'r cylch; yn lluosydd i'r gwariant tymhorol

cydnabyddedig hwnnw (Adran 12, Dosbarth A o'r *Town and Country Planning (General Permitted Development) Order, 1995*) ag eithrio unrhyw elfen sydd yn fwy na 4m o uchder neu 200m³. Nid yw'r bwriad yn cynnwys ond dim ond dwy elfen sydd yn dod o fewn y categori hwnnw, ac felly **ni welir y broses o dderbyn caniatad cynllunio yn gyfyngiad sylweddol ar y bwriad.**

- 4.7. **cyfyngiadau technegol:** Bydd y bwriad yn gorfod cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu (yn bennaf Rhan A, Rhan M a Rheol 7) a'r Safonau Ewropeaidd / Prydeinig (BS, EN a DIN) yn bennaf EN 1176 Caeau Chwarae
- 4.8. **cyfyngiadau datblygu:** Nid oes bwriad i newid y ffordd fawr nac i ddatblygu ar unrhyw ran o'r tir sydd yn debygl o effeithio ar y safle n'r bwriad, a g eithrio un peth. Mae gwifrau foltedd uchel (400kv) ynmynd ar draws y safle ar hyn o bryd, ac fe ddaeth yn amlwg yn ystod cyfnod yr astudiaeth fod bwriad i adenwyddau'r ghfrau hyn. Mae adnewyddu yn golygu gosod gwifrau newydd ochr yn ochr a'r hen rai, ac yn tynnu'r hen rai. Mae hyn yn golygu y bydd rhan sylweddol o'r safle yn cael ei ffeithio gan hyn a) pand fydd y gwaith yn

digwydd (rhywdro ar ôl 2021) a b) tra bydd y gwifrau yn y ddaear, oherwydd yr angen i gadw mynediad. mae hyn yn debygol o olygu y bydd y safle yn rhannu'n dri.

tabl: Elfennau'r cynllun

1	offer masnachol (Richter Spielgeräte)	tyrrau, gwifren, offer dychmygus, offer dringo
2	offer masnachol (amryw)	ymarfer corff awyr agored
3	nodweddion penodol	bowlen beics, iard peldroed
4	nodweddion safle	cysgodfan mawr, mynedfa, cysgodfannau bach
5	ffurfiau'r safle	bryncynnau, llwybr beics, arwynebedd ardal plant iau, plannu tirweddol, parcio (cyfyngedig)

- 4.9. **gorddatblygiad:** Golygir hyn yn yr ystyr o gystadlu a darpariaeth bresennol yn y cylch. Yn gyntaf gwelir y bwriad hwn fel ategiad at ddarpariaeth amlwg megis y clybiau chwaraeon a'r Ysgol - lle gellid defnyddio adnoddau'r Parc ar gyfer gwehtgareddau ganddynt, neu lle for' ddarparuaeth yn (e.e. iard beldroed) yn darparu rhywbeth nad yw'r clwb. Mae elfen o gystadlu, efallai yn debygol gyda lle fel y Ganolfan hamdden, a'r Ganolfan (ger yr Harbwr) ond gan mai nid dyma brif fwriad Parc Pawb, dyw hynny ddim yn debygol o danseilio ei batrwm sylfaenol.
- 4.10. **perchnogaeth a rheolaeth:** mae'r safel oll ymmherchnogaeth y Cyngor Tref sydd yn gefnogol iawn i'r bwriad. Bydd y Cyngor, ar ran y gydoigaeth, yn cyorthwyo i weinyddu'r fenter c i fod yn gyfrwng i ganfod ffynonellau nawdd eraill fel y cyfyd yr angen. Gweler llythyr gan Cyngor Tref Atodiad. Disgrifir isod (7.00) sut y bwriedir darparu llywodraethiant i'r Cynllun. Ni welir hyn, felly, fel cyfyngiad ar y cynllun.
- 4.11. **risg:** Mae Atodiad 8.10 yn ddatganiad o risg i'r cynllun, a fydd yn cael ei ddiweddarau yn rheolaidd. Ystyrir fod y lefel risg yn gymhedrol ac o fewn gallu'r Cynllun i'w reoli'n ddigonol.

tabl: parthau datblygiad o berthynas i waith National Grid

1	rhan ddeheuol: mynediad parhaol i'r gwifrau	rhai elfennau tirwedd a phlannu y gellid eu gwaredu a'u hadfer, ailosod petai angen mynediad at y gwaith yn y dyfodol; y rhan hwn felly yn fwy agored yn ei natur - lle i roi gwastadedd ar gyfer digwyddidau/ pafilynnau ayb.
2	rhan ganol: mynediad tra fod y gwaith yn diwydd (hyd at 22m i'r gogledd o'r gwifrau newydd)	wy oo elfennau parhaol (yn arbennig tuag at ymyl ogleddol yr ardal; lle gellid dtgymalu elfennau a'u hailadeiladu; tyllu ac adfer, ailblannu, ayb. ond yn gwneud mwy o wahaniaeth i gymeriad y safle
3	rhan ogleddol: gweddill y safle	elfennau parahol yn y rhan hwn, fydd ddim yn cael eu dymchwel na'u heffeithio yn ormodol.

- 4.12. **agweddau datblygu cymunedol:** fel y nodwyd uchod, mae nifer o agweddau sy'n berthnasol i'r cynllun sydd yn ymgyrraedd at amcanion ehangach, fel a ganlyn:

- 4.12.1. **parhad ac arwyddocad diwylliannol**: bu Porthmadog yn borth i allforio llechi Blaenau Ffestiniog, ac hefyd yn ganolfan yn y fasnach arfordirol ers ei sefydlu, mae cyswllt Port a'r môr yn ddwfn, ond mae cyswllt y cylch a'r môr yn llawer hyn na hynny, wrth gwrs - y fasnach arfordirol, a dull o deithio'n bell cyn dyddiau ffyrdd safonol. Fel ym mhob tref forwrol, mae'n symboleiddio symudiad a dylanwad rhyngwladol, ac yn ychwanegu lefain gweledigaeth ehangach a gorwelion pellach, i blwyfoldeb cynhenid tref wledig heb gysylltiad â'r môr.
- 4.12.2. Yn y cyswllt hwn, mae'n werth ei ddefnyddio fel symbol cysyniadol - '**y daith**' neu '**deithio**' - man cychwyn ac hefyd cyrchfan yn eu tro. Caiff yr agweddau hyn eu ddefnyddio wrth sefydlu cyd-destun adnewyddol y cynllun yn adeiladu ar fomentwm diwylliannol.
- 4.12.3. **nodweddion cyd-destun y datblygiad**: mae nifer o agweddau gwledig ac amgylcheddol yn bwysig i'r bwriad, megis:
- ei loeoliad rhwng Porthmadog a Thremadog
 - treftadaeth bensaernïol
 - ei amlygrwydd o'r ffordd osgoi newydd
 - ei safle ar lawr y dyffryn, a fu'n wely'r môr
 - creigiau a chopaon gerllaw
 - Coed y Blanhigfa gerllaw
 - cyfoeth bioamrywiaeth y cylch
 - Parc Cenedlaethol Eryri gerllaw
- mae'r cyd-destun gwledig yn un nodedig a chryf, y dylid manteisio yn lawn arno
- 4.12.4. **adnodd economaidd lleol**: mae gan y cynllun rôl economaidd, sef creu atyniad i ddenu ymwelwyr, sydd eisioes yn y cylch, neu sydd yn byw mewn ardaloedd cyfagos, i gynyddu trosiant economaidd yn y cylch. Proses adnewyddol arall.
- 4.12.5. **hanes economaidd lleol**: er fod hanes morwrol a chwarelyddol y cylch yn bwysig, mae cyfoeth o hanes arall i'w gael ac mae'r rhain yn rhoi cyd-destun pellach sydd yn cynyddu ymwybyddiaeth o wytnwch diwylliannol a chymunedol. Enghraifft o hyn fyddai hanes economiadd hen Siop Penmorfa or 18G oedd yn rhan o'r fasnach arfordirol, cyn codi'r Cob a chau'r môr allan, a sefydlodd y cylch yn ganolfan fasnachol leol pwysig.

4.13. **manteision a deilliannau (tabl?)**

- 4.13.1. plant ifanc (5 - 8)
- 4.13.2. plant canolig (8 - 12)
- 4.13.3. bobl ifanc iau (12 - 15)
- 4.13.4. bobl ifan hyn (15 - 18)
- 4.13.5. grwpiau a chlybiau chwaraeon
- 4.13.6. anghenion arbennig - oedran hyn
- 4.13.7. henoed
- 4.13.8. cymdeithas yn gyffredinol
- 4.13.9. ymwelwyr/ gweithgraedd masnachol

5. disgrifiad o'r bwriad terfynnol

- 5.1. Mae'r darluniau a'r manylion yn yr Atodiadau yn dangos yr hyn a fwriedir, gan gynnwys y gwaith tirweddu a'r gwelliannau i'r parc. Fel y nodwyd uchod, mae'r dyluniad yn caniatáu am nifer o cyfyngiadau ymarferol, megis y gwaith o adenwyddu'r gwifrau trydan, yr angen am hyblygrwydd wrth ystyried gweithgareddau, a'r apel i bob oed. Duyma brif nodweddion y bwriad.
- 5.2. **themau gweledol a chysyniadol:** mae hwn wedi ei fwriadu i fod yn safle eang ei apêl, i ddefnyddwyr o bob oed, ac mae'r themau gweledol yn adlewyrchu nifer o'r syniadau ynglyn a'r safle megis:
- **gwely'r môr:** ffurfiau nodweddiadol o draeth, rhediad dwr y llanw, ayb. gan ddefnyddio coed crynion - rhai wedi eu lliwio i greu argraff tebyg i wymon / tyfiant/ llif y dwr
 - **y fasnach forwrol arfordirol:** y coed yn adlewyrchu'r defnydd o goed mewn adeiladwaith llong a chei
 - **masnach ryngwladol:** llongau ond hefyd seryddiaeth (cylch yr orsedd) ac ymwybyddiaeth o'r bydysawd
 - **y diwydiant llechi:** defnydd, yma ac acw, o lechi, ond yn fwyaf arbennig o rwbel llechi megis cerrig adeiladu Tremadog a Port
- 5.3. **nodweddion chwarae:** agored i bawb o bob oed - ychwanegu at yr offer presennol i blant mân, a'u hadnewyddu; offer newydd i bant hyn ac i bobl ifanc sydd yn fwy fwy rhoi pwyslais ar sgiliau cymdeithasu a ffitrwydd: y ddarpariaeth yn cynnwys elfennau'r canlynol:
- **unigol:** dringo, symud, hongian, llithro, cydbwysedd, synhwyrau
 - **grwp:** peldroed, dychymyg, beic, sglefrio,
 - **bobl ifanc hyn:** cymdeithasu, chwaraeon mwy a hyfforddiant mwy ffrufiol
 - **rhieni / henoed:** rhannu o bell, arwain, dysgu, cadw'n heini
 - **anghenion arbennig:** offer addas, adnoddau atodol, darpariaeth efo cyfoedion
- 5.4. **darpariaethau eraill:** fel darpariaeth atodol i ddefnydd y safle mae'r elfennau canlynol wedi eu cynnwys:
- 5.4.1. **cysgodfannau:** gan fod y maes yn agored a phan fo'n dywydd cawodlyd, bydd angen gwahanol fannau i ymochel rhag y glaw - mae nifer o fleydd addasa rgyfer y ddefnyddwyr ifanc a rhieni
- 5.4.2. **parcio:** does fawr ddim adnoddau parcio ar y safle ac mae angen y ddarpariaeth ganlynol:
- mynediad i'r anabl ac i raille mae cerdded yn anodd
 - parcio ar gyfer bobl lle mae angen medru cadw pethau wrth law yn y car (e.e. anghenion ymddygiad arbennig, anghenion iechyd megis angen ocsijen)
 - parcio argyfer bobl sydd yn cario offer - grpwiau, digwyddiadau
- Mae lle ar gyfer parcio ac mae mynediad presennol i'r ardal ll ebydy gellid gosod maes parcio bach. Mae hyn yn caniatáu darpariaeth argyfer yr anghenion a nodir fedru, ond efallai y byddai darpariaeth ehangach yn medru bod yn fwy o broblem, gan ru tagfeydd ar adegau prysurach (oherwydd culni'r lôn). Wedi dweud hynny, efallai bod mopdd creu darpariaeth arall mewn ardal gyfagos, ger coed y Blanhigafa, er enghraifft a fyddain darparu ar gyfer y ddwy safle. Nid yw' rddarpariaeth hynny wedi ei gynnwys yn y

bwriadau hyn.

- 5.5. **pwytiau pellach**: Yn ychwanegol i'r uchod mae angen ystyried pynciau atodol a fyddai'n lluosogwyr sylweddol i'r cynllun o ran llwyddaint a chyrhaeddiad cynulldeiodfa.
- 5.5.1. **llwybr o Dremadog**: ar hyn o bryd mae mynediad o gyferriad Tremadog yn golygu cerded ar hyd y ffordd fawr i groesfan ger y gylchfan. Mae'n llwybr diogel gyda choresfan wedi'i reoli â goeuladau, ond er mwyn gwella treiddiad drwy'r safle, byddai'n llawer gwell cael llwbr cyhoeddus oedd yn rhedeg drwy'r safle, a byddai hyn yn gofyn mynedfa gyferbyn â mynedfa Coed y Blanhigfa, lle nad oes creosfan ar hyn o bryd. Byddai symud y groesfan i'r fan hon yn cyryfhau cysylltiad y safle gyda'r Blanhigfa yn ogystal. Nid yw'r bwriad wedi ei gynnwys ar hyn o bryd gan nad yw'n dyngedfennol i'r cynllun, a byddai'n fater i'w drafod yn fanwl gyda'r Awdurdod priffyrdd.
- 5.5.2. **llwybrau beics**: nid yw'r safle ar Lwybr Beicio Cenedlaethol ond mae potensial ar gyfer nifer o lwybrau lleol yn y cylch - ar gyfer teithiau byr o gwmpas Port a Thremadog, ac efallai ymhellach i gyfeiriad Pentrefelin, Prenteg - a gyda gwelliant mewn llwybrau lleol di-draffig mae'r gallu i ddenu mwy o ddefnyddwyr - o bob oed - i'r safle yn cynyddu. Mae'r agwedd honno tu hwnt i sgôp y bwriad ar hyn o bryd ond yn fater i'w ddatblygu gan Awdurdodau Lleol

6. costau

- 6.1. Mae amcangyfrif o'r costau cyfalaf yn Atodiad 8.00 ac mae cost cyfalaf y cynllun fel a'i disgrifwyd yn y manyion hyn yn

£ 000 000 (yn cynnwys TAW a ffioedd, ayb.)

Ma'er figwr yn rhesymol o safbwynt graddfa'r cynllun, ac yn adlewyrchu cydbwysedd rhwng yr hyn sydd yn ymarferol â dyheadau'r Pwyllgor.

- 6.2. **safle**: gwelir fod y costau o ddatblygu'r safle (heb gynnwys yr offer a'r ddarpariaeth chwarae newydd) oddeutu £000 000. mae hwn yn gost rhesymol agyfer cynllun o'r fath, er fod lle i amrywio rywfai't ar gwaith i gydfynd ac unrhyw gyfyngiadau costau neu ynarferol yn deillio o amodau neu gynnigion gan ariannwyr. Er enghraifft peidio a chodi'r bryncynnau mor uchel mewn mannau, ynghyd, efallai, a phlannu llai, hadu mwy yn lle gosod tywyrch (ardaloedd mwyau defnydd). Nid yw hwn yn cymryd i ystyriaeth unrhyw gostau fyddai'n deillio o ailosod gwifrau National Grid.
- 6.3. **offer**: er fod y ddarpariaeth yn gynhwysfawr, mae lle i'w adolygu unai drwy leihau'r nifer neu leihau'r costau unigol. Disgwylir i'r manylion barhau i gael eu datblygu drwy'r cyfnod paratoi. Cyfanswm y costau hyn, fel mae'n sefyll, yw:

£000 000

Nid oes darpariaeth ar gyfer offer rhydd wedi'i gynnwys. mae'n debyg y caiff y rhain eu hariannu drwy

- 6.4. **busnes:** Mae'r ffigyrau yn Atodiad 8.00 yn amlinellu rhaglen dair mlynedd ar gyfer y Parc, yn ceisio amcangyfri costau cynnal a chadw, gwelliannau a gweithgaredd, a gweld beth fyddai'r incwm i'w gydbwysu. Mae'r ffigyrau hyn yn dangos ...

[mwy i ddod yma](#)

xxxxxxxxxx

7. crynodeb

1. Safle delfrydol mewn ardal gyda phoblogaeth gymharol ddwys o fewn oelleter cyrraedd hawdd.
2. Angen gwella ac enhangu'r ddarpariaeth bresennol i apelio at fwy o bobl.
3. Angen medru defnyddio'r safle ar gyfer ystod ehangach o bobl, i fod yn fwy cynhwysfawr.
4. Gweld yr angen i ddarparu'n well ar gyfer ffitrwydd corfforol a darpariaeth gymdeithasu gwell.
5. Themau gweledol yn ganolog - defnyddio delweddaeth forwrol a morol.
6. Bwriad yn benodol i gomisiynnu offer masnachol er mwyn sicrhau gwasanaeth i gydymffurfio â ofynion statudol, ond eu 'gwisgo' ac elfennau ychwanegol, ynghyd a chreu rhai o'r newydd.
7. Y safle i fod yn addas ar gyfer llu o weithgareddau tros dro hefyd.
8. Costau yn rhesymol ar gyfer prosiect uchelgeisiol tymor hir.
9. Y Parc yn atyniad i ymwelwyr tu allan i'r ardal gan gynnwys bobl ar eu gwyliau

[mwy i ddod yma](#)

8. atodiadau

- 8.1. cynllun lleoliad a dalgylch
- 8.2. cynllun safle presennol
- 8.3. cynllun safle bwriedig
- 8.4. manylion unigol (darluniau)
- 8.5. manylion Timberplay/ Richter Spielgeräte
- 8.6. holiadur: copi gwag a dadansoddiad manwl o'r ymateb
- 8.7. themau gweledol
- 8.8. costau cyfalaf
- 8.9. costau eraill (cynllun busnes yn y cam nesaf)
- 8.10. asesiad risg
- 8.11. rhestr llythyrau cefnogaeth
- 8.12. dyfyniadau o'r llythyrau